## Cylch Gorchwyl Bwrdd Strategaeth Bwyd Caerdydd

**Bwyd Caerdydd**

Mae Bwyd Caerdydd yn bartneriaeth ffyniannus o ymgyrchwyr bwyd o'r sector cymunedol, y trydydd sector, y sector cyhoeddus a’r sector preifat sy'n hyrwyddo ac yn sicrhau newid cadarnhaol a mudiad bwyd da. Mae Bwyd Caerdydd yn gweithio mewn tair prif ffordd:

- CYSYLLTU: Gweithredu fel hyb i gysylltu pobl, prosiectau a phartneriaid sydd â diddordeb mewn bwyd da
- CYFLAWNI: Bod yn gatalydd ar gyfer newid y system fwyd leol, drwy gynnal cynlluniau peilot, rhaglenni ac ymgyrchoedd
- DYLANWADU: Creu llais ar y cyd ar gyfer newid ehangach, drwy lunio polisi lleol a rhannu arfer gorau ledled Cymru a'r DU

**Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**

Mae Caerdydd yn un o sylfaenwyr y rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a enillodd Wobr Aur yn 2024. Mae fframwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn amlinellu 6 mater allweddol y dylai lleoedd fod yn gweithio arnynt:

1. Mabwysiadu dull strategol a chydweithredol o lywodraethu a gweithredu’n dda o ran bwyd.
2. Meithrin ymwybyddiaeth y cyhoedd, dinasyddiaeth fwyd weithredol a mudiad bwyd da lleol.
3. Taclo tlodi bwyd, salwch yn ymwneud â diet a’r gallu i gael bwyd iachus fforddiadwy.
4. Creu economi fwyd gynaliadwy, fywiog, amrywiol a ffyniannus.
5. Trawsnewid arlwyo a chaffael ac adfywio cadwyni cyflenwi bwyd lleol a chynaliadwy.
6. Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a’r argyfwng natur drwy fwyd a ffermio cynaliadwy a rhoi terfyn ar wastraff bwyd.

Mae Bwyd Caerdydd yn cael ei gynnal gan Synnwyr Bwyd Cymru, cronfa yn Elusen Iechyd Caerdydd a’r Fro. Tîm Iechyd y Cyhoedd Lleol Caerdydd a’r Fro sy’n darparu ar y cyd y Cydlynydd Lleoedd bwyd Cynaliadwy.

**Bwrdd Strategaeth Bwyd Caerdydd**

**Cyfrifoldebau:**

- ✔ Goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu gweledigaeth a strategaeth Bwyd Caerdydd ar gyfer system fwyd leol iach a chynaliadwy;
- ✔ Defnyddio arbenigedd i sefydlu blaenoriaethau ac awgrymu dulliau ac ymyriadau effeithiol sy'n cyfrannu at y gwaith o gyflawni gweledigaeth a strategaeth Bwyd Caerdydd;
- ✔ Sicrhau bod gweledigaeth a strategaeth Bwyd Caerdydd yn cyd-fynd â strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru, a chynlluniau strategol lleol perthnasol e.e. Caerdydd Un Blaned, Bwyd Da a Symud, Cynllun Lles
- ✔ Monitro cynnydd yn erbyn strategaeth a rhaglen waith Bwyd Caerdydd;
- ✔ Ymateb ar y cyd i ymgynghoriadau lleol a cenedlaethol perthnasol;

- ✔ Cefnogi gweithgareddau a rhaglenni Bwyd Caerdydd o fewn eu sefydliadau eu hunain.

**Aelodaeth:**

Bydd gan y bwrdd hyd at 12 aelod, yn ogystal â'r Cadeirydd, y Cydlynydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a'r ysgrifenyddiaeth, a rhaid iddo gynnwys cynrychiolaeth gan y ddau bartner allweddol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chyngor Caerdydd. Bydd aelodaeth yn cael ei adolygu bob 12 mis, gydag opsiwn i ymestyn pob tymor. Caiff aelodau newydd eu recriwtio o bartneriaeth ehangach Bwyd Caerdydd, er mwyn cynrychioli pob un o'r chwe mater allweddol yn y fframwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy.  Penodir y Cadeirydd ar wahân gan aelodau'r Bwrdd Strategaeth.

**Amlder Cyfarfodydd:**

Er mwyn bwrw ymlaen â datblygiad y strategaeth bwyd da newydd, o fis Mawrth 2026 tan fis Rhagfyr 2026, cynhelir 6 cyfarfod y Bwrdd Strategaeth.  Ar ôl hynny, bydd y Bwrdd Strategaeth yn adolygu amlder, gan anelu at gyfarfodydd chwarterol gan gynnwys un diwrnod strategaeth y flwyddyn.

**Taliadau Cydnabyddiaeth:**

Swydd wirfoddol yw bod yn aelod o’r Bwrdd.  Os yw hyn yn rhwystr i chi gymryd rhan, cysylltwch â ni a gallwn drafod opsiynau.  Darperir lluniaeth ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

**Gwrthdaro Buddiannau:**

Dylai aelodau’r Bwrdd weithredu er budd y bartneriaeth Bwyd Caerdydd ehangach gyfan a’i chynrychioli.  Rhaid i’r aelodau beidio â chael unrhyw enillion ariannol neu faterol trwy wasanaethu ar y bwrdd, oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi'n benodol i wneud hynny, a rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau posibl sy’n gwrthdaro.